# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 8 Mawrth, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma. [Insert link]

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G.M. Ball, I.R. Buckley, S. Campbell, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy and S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), G. Doyle, D. Dutch, V. John a H. Smith (Cynrychiolwyr o Weithgor/Panel Tenantiaid), Cynghorwyr C.P. Franks, H.C. Hamilton a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.G.J. Morgan.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CYFLWYNIAD - DIWEDDARIAD GAN YR UNED AMDDIFFYN SIFIL (UAS) –

ARGYMHELLWYD – NODI'R cyflwyniad o ran y Diweddariad ar yr Uned Diogelu Sifil (UDS).

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 IONAWR, 2023 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI’R sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.

(2) NODI’R trefniadau i wrthbwyso'r gorwario rhagamcanol yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-2) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 IONAWR 2023 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI’R cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI’R defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) NODI’R defnydd o Bwerau Brys o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad 1 sydd ynghlwm â'r adroddiad.

(4) NODI’R newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai’r blynyddoedd i ddod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. GWEITHGAREDDAU LEFEL GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/2024 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD y gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2023/24, fel y'u ceir yn y Cynlluniau Gwasanaeth ac fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad A), yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

(2) BOD y mesurau arfaethedig a'r targedau perfformiad gwasanaethau ar gyfer 2023/2024, yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad B), yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-2) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2022/23 A CHYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIOL ALLANOL A CHYNIGION AR GYFER GWELLA (CAT) -

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) BOD y cynnydd a wnaed hyd yma wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion gwella a wnaed gan reoleiddwyr allanol y Cyngor yn cael eu cymeradwyo, ac argymhellir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet bod y camau gorffenedig canlynol gan y Traciwr Insight, fel sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, yn cael eu dileu:

- Cyflawni gyda Llai: Adolygiad Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd (9 gweithred).
- Sut mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw: Digartrefedd (1 weithred) ac Adolygu Digartrefedd: Drws Agored i Newid Cadarnhaol (11 gweithred).

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei argymhellion rheoleiddio a'i gynigion gwella ac yn ymateb yn briodol i'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd drwy raglen Archwilio Cymru o Astudiaethau Llywodraeth Leol yn lleol a cenedlaethol.